Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

## Rheoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (fel y'u diwygiwyd), Rheoliad 22 – Penderfyniad Caniatâd AEA

**Teitl:** Gorsaf Bad Achub Tyddewi yr RNLI

**Cymeradwyaeth Reoleiddiol**: Rheoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (fel y'u diwygiwyd)

**Gweithredwyr***: RNLI (Trading) Limited*

**Rhif yr Adroddiad**: Cyf: CRML1365

**Lleoliad**: St Justinian's, Sir Benfro

## Cyflwyniad

Yn y ddogfen hon ceir penderfyniad caniatâd AEA dan Reoliad 22 Rheoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (fel y'u diwygiwyd), mewn perthynas â chais a gyflwynwyd gan *RNLI (Trading) Limited*. Ategwyd y cais gan Ddatganiad Amgylcheddol. Mae'r Tîm Trwyddedu Morol wedi ystyried y cais a'r wybodaeth a gyflwynwyd i ategu'r cais, ac yn awr mae mewn sefyllfa i wneud penderfyniad caniatâd AEA ar gyfer *RNLI (Trading) Limited*.

## Disgrifiad o'r prosiect

Mae *RNLI (Trading) Limited* wedi gwneud cais am Drwydded Forol ar gyfer adeiladu gorsaf bad achub â llithrfa newydd yn St Justinian's, Sir Benfro.

Bydd y gwaith sydd angen Trwydded Forol dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009) yn cynnwys gwaith tua'r môr o'r Tarddiadau Penllanw Cymedrig, gan gynnwys:

- Colofnau'n cynnal y llithrfa a'r tŷ cwch
- Y llithrfa

Ymhellach, bydd y gwaith hwn angen Caniatâd Cynllunio dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Rhoddodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ganiatâd Cynllunio i'r datblygiad ar 31 Ionawr 2013 (Cyfeirnod y cais: NP/13/00717).

Cyfeiriodd y Tîm Trwyddedu Morol y penderfyniad ynglŷn â'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd dan A65 Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd 2010 i Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Gwnaed hyn gan fod y cynnig yn dod dan adain A62 y 'Rhesymau Hanfodol sef er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig' (IROPI), oherwydd byddai'n arwain at effaith niweidiol ar gyfanrwydd Safleoedd dan Warchodaeth Ewropeaidd. Cynefin cydbwyso â chynnydd net o 5 metr sgwâr o riff trwy greu riff newydd gan

ddefnyddio'r creigiau a fydd yn deillio o'r safle, sy'n gydnaws â daeareg y riff fel y nodir yn rheoliad 66. Sylwn fod Datganiad Achos wedi'i gyflwyno i Weinidogion Cymru a'i gymeradwyo ar 24 Mawrth 2014.

## Datganiad Amgylcheddol

Cafodd y Datganiad Amgylcheddol ei asesu fel rhan o'r broses benderfynu. Dyma'r agweddau yr ymdriniwyd â hwy yn y Datganiad Amgylcheddol: Effeithiau Amgylcheddol; Lliniaru, Rheoli a Monitro; Effeithiau Gweddilliol; ac Effeithiau Cronnol ar y meysydd a ganlyn:

- Prosesau Arfordirol
- Daeareg
- Ansawdd Dŵr a Gwaddodion
- Ecoleg y Môr a'r Arfordir
- Mamaliaid y Môr
- Ecoleg y Tir
- Adareg
- Pysgodfeydd Masnachol
- Archeoleg a Threftadaeth
- Twristiaeth a Hamdden
- Mordwyo
- Traffig a Chludo
- Sŵn a Dirgryniad
- Y Dirwedd a'r Lleoliad Gweledol
- Asesiad Cydymffurfio'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

Roedd y Tîm Trwyddedu Morol o'r farn fod holl adrannau'r Datganiad Amgylcheddol wedi'u trafod yn ddigonol ac mae'n cadarnhau casgliadau'r Datganiad Amgylcheddol.

## Sensitifrwydd Amgylcheddol

Mae'r cynllun arfaethedig yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Sir Benfro Forol, a hefyd gerllaw'r safleoedd statudol a ganlyn:

- ACA Tyddewi
- ACA Comins Gogledd Orllewin Sir Benfro
- AGA Ramsey & St Davids Peninsula Coast
- SoDdGA Ynys Dewi
- SoDdGA Trefeiddan Moor
- SoDdGA St Davids Peninsula Coast

Cafodd 'Prawf yr Effaith Arwyddocaol Debygol' ei gynnal, ac ni ellid diystyru effeithiau sylweddol posibl ar nifer o nodweddion ACA Sir Benfro Forol. O'r herwydd, cynhaliwyd

Asesiad Priodol, a chanfuwyd y byddai'r cynnig yn cael effaith sylweddol ar y safle(oedd) Ewropeaidd dan sylw. Gan fod y datblygiad angen caniatâd cynllunio hefyd, cyflwynodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro achos IROPI i Weinidogion Cymru i'w ystyried ar 29 Tachwedd 2013. Ar sail y llythyr a gawsom ar 24 Mawrth 2014 gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, sylwn fod yr achos IROPI wedi'i dderbyn a bod caniatâd cynllunio wedi'i roi, gyda chamau cydbwyso. Cyfeiriwn y penderfyniad i Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn hyn o beth.

Mewn ymgynghoriad gyda CNC (swyddogaethau Corff Cadwraeth Natur Statudol), dyddiedig 27 Mawrth 2014, ni nodir sylwadau ychwanegol parthed yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd sy'n berthnasol i'r Drwydded Forol.

## Ymgynghoriad

Hysbysebwyd yr hysbysiad cyhoeddus yn y *Western Telegraph* ar 26 Chwefror 2014 a 6 Mawrth 2014 er mwyn rhoi gwybod i'r cyfranogwyr am y gwaith arfaethedig a rhoi cyfle iddynt gyflwyno sylwadau ynghylch y cais fel bo angen.

Ymgynghorwyd ynghylch y cais am waith morol ar 6 Chwefror 2014 ac anfonwyd ef at y canlynol: Cyfoeth Naturiol Cymru – 'swyddogaethau cynghori' (CNC), Y Weinyddiaeth Amddiffyn, Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA), Ystâd y Goron, yr Awdurdod Cynllunio Lleol, yr Awdurdod Harbwr Lleol, y Swyddog Bioamrywiaeth Lleol, *Royal Yachting Association* (RYA), Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB),*Trinity House* (TH), Cadw, Cangen Bysgodfeydd Llywodraeth Cymru, a Swyddogion Gorfodi Morol a'r *Marine Conservation Society*.

Ar gyfer yr ymgyngoreion na chyflwynasant ymateb, tybiwyd nad oedd ganddynt unrhyw sylwadau i'w cyflwyno.

## Gwerthuso Rheoleiddiol a phenderfyniad caniatâd AEA

Wrth ystyried y cais ar gyfer adeiladu Tŷ Cwch a Llithrfa RNLI newydd, ystyriwyd y canlynol:

- Y Datganiad Amgylcheddol, gan gynnwys y camau lliniaru arfaethedig;
- Darpariaethau perthnasol Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009;
- Y sylwadau a gafwyd

Wrth ystyried y rhain, cynhaliwyd asesiad llawn a manwl ar effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol posibl y cynigion ar bobl, anifeiliaid a phlanhigion, pridd, dŵr, y diwedd, asedau materol a'r dreftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys unrhyw berygl i gyfanrwydd safleoedd cyfagos o bwysigrwydd cadwraethol.

Mae'r Tîm Trwyddedu Morol yn cadarnhau casgliadau'r Datganiad Amgylcheddol, yn amodol ar gynnwys yr amodau y cyfeirir atynt uchod mewn unrhyw drwydded a roddir, ac yn amodol ar gydymffurfio â'r amodau hyn.

O ganlyniad, daw'r Tîm Trwyddedu Morol sy'n gweithredu ar, ac ar ran, yr Awdurdod Trwyddedu, i'r casgliad na fydd y prosiect yn cael effaith niweidiol sylweddol ar yr amgylchedd. O'r herwydd, gellir rhoi penderfyniad caniatâd AEA ffafriol i *RNLI (Trading) Limited* ar gyfer gwaith morol fel rhan o'r cynllun i adeiladu Tŷ Cwch a Llithrfa RNLI newydd.

**Cymeradwyo**

**Lluniwyd gan**: Siân Hughes – Y Tîm Trwyddedu Morol

**Llofnod:**

**Dyddiad**: 16 Mehefin 2014

**Cymeradwywyd gan**: Eleanor Smart – Arweinydd y Tîm Trwyddedu Morol

**Llofnod:**

**Dyddiad**: 16 Mehefin 2014